

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Alida Laser, Y Barri

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2023

Dyddiad cyhoeddi: 13 Medi 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-670-8

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4. Y camau nesaf.....	17
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	18
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	19
Atodiad C - Cynllun gwella	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Alida Laser, Windsor Lofts, Romilly Road, Y Barri, CF62 6FG ar 13 Mehefin 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod Alida Laser yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd dymunol. Roedd yr ystafell drin yn lân ac yn daclus ac yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser.

Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth cyn ac ar ôl y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus. Fodd bynnag, roedd cofnodi bod y cyngor hwn wedi'i roi ar goll mewn rhai cofnodion.

Ar wahân i bostio ar-lein ac adolygiadau ar y cyfryngau cymdeithasol nid oedd unrhyw ddarpariaethau ar gyfer cael, adolygu a dadansoddi adborth gan gleifion dienw.

Nid oedd y cyfleusterau'n hygyrch i gleifion â gofynion symudedd.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd cofnodion cleifion cynhwysfawr yn cael eu cadw; roedd rhestrau gwirio cyn triniaeth a newidiadau i amgylchiadau meddygol y cleifion wedi cael eu gadael yn wag, ni chwblhawyd dyddiadau ac nid oedd cydsyniad gan gleifion i driniaethau dilynol wedi ei gydllofnodi fel yr angen.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyngori darpar gleifion bod rhaid cerdded grisiau serth er mwyn cael mynediad i'r clinig ac nad oes lifftiau ar gael ac felly nid yw'n addas i bobl â phroblemau symudedd
- Rhoi copi o'r canllaw i gleifion i bob claf adeg yr ymgynghoriad cyntaf
- Addasu adran canllaw'r cleifion i egluro strwythur prisiau'r triniaethau ac argaeledd cynigion arbennig
- Chwilio, cofnodi ac adolygu adborth gan gleifion gan ddarparu ffurflenni dienw yn y clinig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Y safle yn lân ac yn daclus gyda derbynfa gyfforddus.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau a pholisïau addas ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac roedd hebryngwyr yn cael caniatâd i fynychu pan fo angen.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag nid oedd amserlenni glanhau a dim ond polisi rheoli heintiau elfennol oedd ar waith.

Cafodd y peiriant IPL ei wasanaethu'n ddiweddar gan y gwneuthurwr, roedd gan y clinig Reolau Lleol cyfredol ac roedd contract Cynghorydd Diogelu Laserau cyfredol yn ei le. Fodd bynnag, nid oedd protocolau triniaeth meddygol ar gael. Yn ogystal, er bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, nid oedd yr archwiliad gwasanaeth diffoddwyr tân wedi'i gynnal, nid oedd hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol wedi'i gwblhau ac roedd rhywfaint o'r cyfarpar cymorth cyntaf wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd protocolau triniaeth feddygol sydd eu hangen ar gyfer y defnydd o laserau ar gael yn ystod yr arolygiad
- Nid oedd y diffoddwyr tân wedi bod yn rhan o'r archwiliad cynnal a chadw blynyddol gofynnol gan unigolyn cymwys.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cynnal gwiriadau rheolaidd o gyfarpar cymorth cyntaf a doddi eitemau coll/neu wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio yn eu lle
- Cofrestr IPL ar wahân yn cofnodi'r holl driniaethau a ddarperir gan ddefnyddio'r peiriant yn hytrach na'u cofnodi yn ffeiliau unigol y cleifion
- Mae angen mwy o fanylder ar y polisi rheoli heintiau, gan gynnwys hylendid dwylo, trefniadau cadw tŷ a glanhau
- Dylid cadw amserlenni glanhau gan fanylu ar eitemau, ardaloedd ac amllder a'u llofnodi fel cadarnhad
- Cwprdd storio cofnodion i gael ei gadw dan glo a'r rheolwr cofrestredig i dynnu'r allweddi pan nad oedd goruchwyliaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle yn ymddangos mewn cyflwr da gydag asesiad risg tân ar waith, prawf gwifrau trydanol bob pum mlynedd a Phrofion Offer Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal yn ddiweddar ac yn ddilys
- Roedd yr ystafell drin a'r dderbynfa yn ymddangos yn lân ac yn daclus

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Er bod y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig ac yn wybodus am y gwaith a'r cleifion, nid oedd ganddo ddealltwriaeth dda o'r rheoliadau na phwysigrwydd cadw cofnodion cynhwysfawr.

Roedd y polisiau wedi cael eu hadolygu a'u llofnodi gan y rheolwr cofrestredig ond roedd angen mwy o fanylder ar rai o ran maint y sefydliad, y datganiad o ddiben ac anghenion y cleifion.

Roedd gweithdrefn gwyno yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion ond nid oedd yn weladwy i'r cleifion yn hwylus ac nid oedd ffurflenni cwyno ar gael pe byddai eu hangen.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Creu gweithdrefn gwyno ar wahân i fod ar gael i'r cleifion yn yr ystafell drin. Cynnwys mwy o fanylder o'r broses a'r amserlenni ar ôl cael cydnabyddiaeth o dderbyn.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Dim ond dau holiadur wedi'u cwblhau a gawsom.

Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*"Gwasanaeth rhagorol, rhoddwyd gwybod am y weithdrefn yn llawn."
"...pleser pur ymweld â'r lle..."*

Urddas a pharch

Gwelsom mai un ystafell drin yn unig oedd gan Alida Laser ar y llawr cyntaf. Gwelsom fod yr ystafell yn lân ac yn daclus. Roedd gan yr ystafell ddrws yr oedd modd ei gloi lle gallai'r cleifion newid mewn preifatrwydd. Darparwyd tywelion i'r cleifion ddefnyddio drwy gydol eu triniaethau er mwyn diogelu eu hurddas.

Nid oedd hebryngwyr yn cael eu cynnig gan y gwasanaeth fel arfer, fodd bynnag caiff yr hebryngwyr ganiatâd i fynychu ar gyfer cleifion â sensitifrwyddau diwylliannol neu faterion yn ymwneud ag iaith.

Cyfathrebu'n effeithiol

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gopïau caled i ni o ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y clinig. Roedd y Datganiad o Ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac felly roedd angen ei hadolygu. Yn benodol, nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o weithdrefn gwyno briodol, na chrynodeb o safbwyntiau'r cleifion. Yn ogystal, nid oedd y canllaw yn cyfeirio at ganllawiau clir ar daliadau ar gyfer triniaethau. Fodd bynnag, roedd rhestr prisiau ar wahân wedi'i hargraffu ac ar gael yn y dderbynfa a'r ystafell drin.

Rydym yn argymhell i'r gwasanaeth ddiweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau ac i wneud hyn ar gael yn hawdd i'r cleifion yn y clinig.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gallai cleifion anfon unrhyw ymholiadau dros y ffôn neu drwy e-bost.

Nid oedd gan y clinig staff yn siarad Cymraeg ond awgrymwyd pe byddai angen gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, y gellid darparu gwasanaeth cyfieithu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynnig o'r ddarpariaeth hon yn eu dogfennaeth.

Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth ystyried y ffordd orau y gallai ddiwallu anghenion cleifion a all fod eisiau cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl ar lafar cyn ac ar ôl eu triniaeth, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am y driniaeth.

Defnyddiodd y clinig ffurflenni triniaeth y cleifion gan eu cyflenwr Goleuni Pwls Dwys (IPL) a oedd yn cofnodi hanes meddygol, cytundeb prawf croen, manylion y driniaeth ac er mwyn cael cydsyniad. Er bod yr ymgynghoriad cychwynnol wedi'i lofnodi gan y claf yn rhoi cydsyniad, ni chafwyd cydsyniad wedi'i lofnodi ar gyfer triniaethau dilynol. Roedd lle yng nghofnodion triniaeth y cleifion i nodi unrhyw newidiadau i gyflwr meddygol neu effeithiau andwyol a brofwyd ers y driniaeth flaenorol er nad oeddent wedi eu cwblhau.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai'n rhaid i'r cleifion gael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn cytuno ar driniaeth. Caiff hyn ei gyflawni yn ystod yr apwyntiad ymgynghori a chaiff ei ddogfennu yng nghofnod triniaeth y claf ynghyd â hanes meddygol y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf. Roedd y rhain ar gael ar gopi caled ond nid oeddent wedi eu cwblhau yn llawn. At hynny, ni chwblhawyd cydsyniad parhaus drwy lofnod.

Gwnaethom ofyn am gael gweld y gofrestr o driniaethau IPL fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd ganddynt gofrestr o'r fath am ei fod wedi'i chynnwys yng nghofnodion unigol y cleifion, a gaiff eu cyflenwi gan eu cyflenwr IPL. Nodwyd nad oedd y cofnodion hyn wedi'u llofnodi gan y gweithredwr IPL. Rhoesom gyfarwyddyd i'r rheolwr cofrestredig bod rhaid i

lofnodion y gweithredwr gael eu cofnodi er mwyn cadarnhau bod y paramedrau IPL yn gywir a phwy oedd wedi'u cymhwyso.

Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn cadw cofrestr yn cofnodi pob adeg y darperir triniaethau IPL, sy'n benodol i'r peiriant yn hytrach na chael eu gwahanu i ffeiliau unigol y cleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cawsom ein sicrhau bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio. Cawsom sicrwydd y byddai hawliau dynol cleientiaid trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn.

Nid oedd gan y clinig fynediad gwastad i gadeiriau olwyn o'r stryd ac roedd yr ystafell drin ar y llawr cyntaf heb lifft ar gael. Nid oes cyfeiriad at unrhyw broblem fynediad yn nhaflenni'r clinig.

Rydym yn argymhell i'r clinig sicrhau y caiff y broblem fynediad ei chynnwys yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion a rhoi gwybod i'r cleifion ag anawsterau symudedd yn y cyswllt cyntaf.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai adborth y cleifion yn cael ei nodi ar gofnod triniaeth y claf adeg y driniaeth fel modd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Fel arall, gallai'r cleifion ddarparu adborth am y gwasanaeth drwy adolygiadau ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol. Nid oedd darpariaeth adeg yr adolygiad i gleifion roi adolygiadau'n ddienw.

Rydym yn argymhell i'r clinig gynnig ffurflenni adborth dienw yn yr ystafell drin a/ neu'r dderbynfa.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y clinig nifer o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion yn y clinig.

Roedd sticeri profion offer cludadwy (PAT) i'w gweld ar bob darn perthnasol o offer ac roedd yr offer wedi cael ei brofi'n ddiweddar.

Roedd gan y clinig asesiad risg tân cyfredol, a dywedwyd wrthym fod arolygiad diogelwch tân wedi cael ei gynnal yn ddiweddar. Fodd bynnag gwelsom nad oedd y diffoddwyr tân a oedd yn bresennol wedi cael eu gwasanaethu yn y 12 mis diwethaf ac nid oeddent wedi'u hatodi i'r wal.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Dywedwyd wrthym nad oedd gan y clinig gyflenwad nwy. Cynhaliwyd yr Adroddiad diweddaraf ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR) ym mis Medi 2020 ac felly bydd angen eu hailbrofi ym mis Medi 2025.

Gwelsom bolisi gweithredu mewn argyfwng meddygol cyfredol.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gweithdrefnau addas i'w dilyn pe byddai argyfwng yn codi a chadarnhau ei fod wedi cyflawni hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, am nad oedd yr hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar, rydym yn cynghori'r rheolwr cofrestredig i ystyried cyflawni cwrs gloywi cymorth cyntaf.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael ond gwelsom fod rhai o'i gynnwys yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio ac felly nid oedd yn addas at y diben.

Rydym yn argymhell dod deunyddiau yn lle'r rhai y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio ac y rhoddir system ar waith i wirio deunyddiau cymorth cyntaf sydd wedi darford yn rheolaidd yn y dyfodol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Nododd ein harsylwadau o'r clinig fod yr amgylchedd yn amlwg yn lân ac yn daclus. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig egluro'r gweithdrefnau glanhau clinigol ar gyfer ei hun, y cyfarpar a'r ystafell drin. Gwelsom fod gan y clinig bolisi atal a rheoli heintiau ar waith. Fodd bynnag, roedd y polisi hwn yn gryno iawn ac nid oedd yn

cynnwys digon o fanylder i ddangos disgwyliadau hylendid dwylo, ardaloedd i'w glanhau ac amllder er enghraifft. Yn ogystal, nid oedd amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio i dystio bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni yn ôl yr angen.

Rydym yn argymhell i'r gwasanaeth ddiweddarau eu polisi atal a rheoli heintiau i gynnwys mwy o fanylder gan gynnwys y safonau a ddisgwylir y prosesau ac amllder. Hefyd, rydym yn argymhell i'r gwasanaeth roi amserlen glanhau ar waith i ddangos y cydymffurfir â'r polisi glanhau.

Roedd contract gwaredu gwastraff addas ar waith i gael gwared ar wastraff clinigol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Dim ond cleifion dros 18 oed y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i'w trin. Dangosodd ein sgysiau â'r rheolwr cofrestredig a'r adolygiad o gofnodion y cleifion eu bod yn cydymffurfio â'r amod hwn.

Dim ond yn y dderbynfa y caniatwyd y plant ac roedd yn rhaid iddynt fod yng nghwmni oedolyn wrth i'r driniaeth gael ei chynnal.

Gwelsom gydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed gyda hyfforddiant wedi'i gwblhau fis Chwefror 2022 a pholisi diogelu ar waith ac wedi'i adolygu fis Chwefror 2022.

Cafodd oedolion agored i niwed eu hasesu ar y cam ymgynghori drwy gwestiynu ac adolygu'r feddyginiaeth hysbys. Byddai unrhyw bryderon yn cael eu hoedi nes cael llythyr gan feddyg a byddai angen i'r claf fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru i ddarparu triniaeth gwaredu blew ac adfywio'r croen drwy ddefnyddio peiriant IPL Lynton Excelight. Dangosodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o hyfforddiant ar ddyfais gweithredu benodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth gyfredol.

Darparodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o gontract parhaus gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau fel y bo'n ofynnol dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, er mwyn rhoi cyngor arbenigol ar y defnydd gweithredol o'r peiriant Goleuni Pwls Dwys yn y clinig o ddydd-i-ddydd. Ni chafodd y Rheolau Lleol eu hadolygu fis Rhagfyr 2022.

Nid oedd gan y clinig brotocolau meddygol dilys ar gael fel y bo'n ofynnol gan y rheoliadau ond yn hytrach cynigiwyd taflenni gwybodaeth cryno i ddangos cydymffurfiaeth.

Gwelsom fod y Rheolau Lleol yn dangos bod protocolau wedi cael eu llunio. Fodd bynnag nid oedd y rheolwr cofrestredig yn gallu darparu copi ohonynt. Felly, nid oedd gennym sicrwydd bod y gweithredwr IPL yn ddigon ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir pe byddai argyfwng. Ar ôl bod mewn cysylltiad â'r darparwr yn ddiweddarach, cafwyd copi digidol.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gwelsom dystiolaeth ar ddiwrnod yr arolygiad fod y peiriant IPL sydd yn y clinig wedi cael ei wasanaethu'n llawn a'i raddnodi'n ddiweddar yn ogystal â chofnodion o wasanaethau yn y gorffennol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y sbectol oedd yn y clinig ar ddiwrnod yr arolygiad yn unol â'r un yr argymhellir yn y Rheolau Lleol ac roedd i'w weld mewn cyflwr da.

Roedd gan yr ystafell driniaeth ddrws yr oedd modd ei gloi gydag arwydd wedi'i lamineiddio arno yn dangos bod peiriant IPL yn yr ystafell.

Dim ond un gweithredwr penodol sydd i'r peiriant IPL yn y clinig. Gwelsom fod yr allweddi i'r cyfarpar IPL yn cael eu cadw gan y rheolwr cofrestredig pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dangosodd y rheolwr cofrestredig ei bod hi'n dilyn cwrs mewn anatomeg, ffisioleg a phatholeg fel rhan o'i datblygiad proffesiynol parhaus ei hun. Disgwylir y gallai'r cwrs wella ei gwybodaeth am swyddogaethau'r corff dynol.

Rheoli cofnodion

Caiff cofnodion y cleifion eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag cyfaddefodd y rheolwr cofrestredig i'r allweddi gael eu gadael yn y clo yn aml. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai cleifion nad oedd ganddynt oruchwyliaeth gael gafael ar wybodaeth gyfrinachol.

Rydym yn argymhell i'r gwasanaeth sicrhau bod storfa'r cofnodion dan glo, ac i'r allweddi gael eu tynnu oddi yno pan nad oes goruchwyliaeth staff yno.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Alida Laser yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yn weithredwr peiriant IPL awdurdodedig. Nid yw'r clinig yn cyflogi unrhyw weithwyr eraill. Gwelodd ein harsylwadau o'r clinig nad oedd tystysgrif cofrestriad cyfredol AGIC a'r amserlen gysylltiedig a oedd yn cynnwys amodau'r cofrestriad yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Rydym yn argymhell i'r gwasanaeth atodi'r ddwy ddogfen yma mewn man amlwg yn y clinig.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn monitro ac yn asesu'r clinig yn barhaus ac ar sail ad hoc. Nid oedd cofnod o hyn ac felly ni chawsom dystiolaeth fod unrhyw archwiliadau blynyddol wedi cael eu cynnal, fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Rydym yn argymhell i'r clinig roi gweithdrefn ar waith er mwyn sicrhau bod proses werthuso a gwella parhaus yn ôl yr angen fel y'i nodir yn rheoliad 19 o'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Er ei bod hi'n frwdfrydig ac yn wybodus am ei gwaith a thuag at ei chleifion, ni wnaeth y rheolwr cofrestredig ddangos dealltwriaeth lawn o'r gofynion llywodraethu, yn enwedig ynghylch dogfennau polisi strwythuredig cadarn, proses adborth a chwyno effeithiol a gweithdrefn werthuso a gwella fel y nodir uchod.

O ystyried y meysydd hyn i'w gwella, dylid rhoi ystyriaeth bellach i roi trefniadau mwy effeithiol ar waith er mwyn monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau a safonau perthnasol. byddai AGIC yn disgwyl gweld dystiolaeth o welliant amlwg mewn perthynas â'r materion hyn yn yr arolygiad nesaf.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y clinig weithdrefn gwyno ysgrifenedig elfennol ar gael yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Dangosodd y rhain y bydd gweithdrefn gwyno ar gael i'r cleifion ei darllen a'i dilyn ac y bydd ffurflenni cwyno ar gael. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw un o'r rhain yn ystod ein harolygiad. Yn ogystal, nodwyd 'bydd y weithdrefn gwyno yn nodi'r opsiynau eraill [o gwyno] megis AGIC.' Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn gallu egluro pa ffyrdd eraill o gwyno oedd ar gael, yn wahanol i'r rhai a nodwyd.

Er mwyn helpu'r cleifion i wneud cwyn, rydym yn argymhell llunio gweithdrefn gwyno ar wahân a darparu ffurflenni priodol yn y clinig. Rydym hefyd yn

argymell cael gwared ar amwysedd 'opsiynau eraill ar gael' os na ellir nodi'r opsiynau hynny.

Dywedwyd wrthym y gellir codi cwyn dros e-bost neu'n ysgrifenedig ac y byddai'n cael ei hymdrin â hi'n brydlon gan y rheolwr cofrestredig i ddechrau, gan gynnwys cydnabyddiaeth o'i derbyn o fewn 48 awr. Dywedwyd y byddai materion yn cael eu datrys drwy newid gosodiadau'r cyfarpar neu drwy gynnig disgowntiau ar driniaethau pellach, nid oes yr un o'r rhain wedi eu nodi yn y gweithdrefnau. Dywedwyd wrthym y byddai'r cwynion yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion ac yn cael eu cofnodi mewn llyfr cwynion. Cynigiodd y rheolwr cofrestredig gyflwyno cofrestr gwyno hefyd ar gyfer cwynion ar lafar. Fodd bynnag, am nad oedd unrhyw gwynion wedi cael eu derbyn hyd yma, nid oeddem yn gallu asesu na gwirio dogfennaeth y broses gwyno adeg yr adolygiad.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Rhoddwyd gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol a chlir i ni ar gyfer y rheolwr cofrestredig. Am mai'r rheolwr cofrestredig yw'r unig gyflogai yn y clinig, nid oedd unrhyw arferion recriwtio gweithlu nac arferion cyflogaeth mewn perthynas â'r cyflogeion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd.
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru.
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Alida Laser

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu sicrwydd ysgrifenedig i AGIC o'r canlynol: Yn y dyfodol, bydd pob mewnbwn gofynnol ar gofnodion y cleifion, gan gynnwys gwiriadau hanes meddygol parhaus a chydsyniad y cleifion, yn cael eu cwblhau'n llawn ac yn gywir, ac yn cael eu llofnodi gan y claf a'r gweithredwr IPL fel sy'n gywir.	Rheoliad 23(1a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	O 14/06/23 bydd pob cerdyn cofnod y cleientiaid wedi'u cwblhau'n llawn, bydd hyn yn cynnwys llofnod y cleient i ddatgan nad oes unrhyw newidiadau i hanes meddygol a'u bod yn fodlon rhoi cydsynio i driniaeth. Byddaf i, fel yr unig weithredwr, hefyd yn llofnodi pob cerdyn cofnod.	Kim Macey	Yn weithredol o 14/06/23 ac yn barhaus.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu sicrwydd ysgrifenedig i AGIC o'r canlynol:	Rheoliad 45 (1) o Reoliadau Gofal	Mae'r protocol triniaeth gyfredol wedi'i dderbyn gan fy Nghynghorydd Diogelu rhag Laserau ar 13/06/23 ac	Kim Macey	Fersiwn electronig ar gael 13/06/23. Fersiwn wedi'i argraffu

Maent wedi darllen a deall y protocol triniaeth feddygol gyfredol cyn cynnal triniaethau pellach i'r cleifion. Bydd copi o'r protocol triniaeth feddygol gyfredol ar gyfer y peiriant laser ar gael yn y clinig bob amser.	Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	wedi'i ddarllen gennyf i. Nid oes unrhyw newidiadau i'r protocolau hyn i'r rhai rwyf wedi bod yn eu defnyddio. Rwyf wedi cadw fersiwn electronig y gall unrhyw un ei adolygu fel yr angen. Bydd fersiwn wedi'i argraffu ar gael yn y clinig erbyn 27/06/23.		ar gael erbyn 27/06/23. Wedi'i ddarllen, ei adolygu a chadarnhau nad oes UNRHYW newidiadau i'r protocolau sy'n bodoli eisoes erbyn 14/06/23.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r canlynol gael ei gyflawni ar unwaith: Pob diffoddwr tân yn yr adeilad i'w wasanaethu a labeli archwiliadau perthnasol i'w rhoi yn eu lle cyn cynnal triniaethau pellach ar y cleifion.	Rheoliad 26(4a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Trefnwyd archwiliad diffoddwyr tân ar gyfer 28/06/23. Darparwyd tystiolaeth e-bost.	Kim Macey	28/06/23

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Kim Macey

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 20 Mehefin 2023

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Alida Laser

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu copi o'r canllaw i gleifion i bob claf.	Rheoliad 7 (2) o Reoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Nid oes gan y clinig unrhyw gleifion. Fodd bynnag bydd canllaw i "Gleifion" yn cael ei ddosbarthu yn ystod y cam ymgynghori cychwynnol.	Kim Macey ar gyfer pob maes i'w wella	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol fel y'i nodir yn y rheoliadau. Rhaid rhoi sylw arbennig i'r canlynol: Cost ar gyfer cyrsiau o driniaethau.	Rheoliad 7(1)(b) o Reoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Bydd y canllaw i Gleientiaid yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r prisiau, mae'r rhain yn amrywio ac felly bydd y canllaw i'r cleientiaid yn eu cyfeirio at y wefan am y prisiau		Wedi'i gwblhau

• Argaeledd cynigion arbennig. • Dylai'r canllaw o leiaf gyfeirio'r cleifion at y rhestr prisiau ar wahân sydd ar gael yn y clinig.		diweddaraf a'r cynigion sydd ar gael gyda'r ddolen a ddarperir. Hefyd mae'r rhestr prisiau ar gael wedi'i hargraffu ar ddesg y dderbynfa ac yn yr ystafell glinig ac roeddent ar gael yno adeg yr arolygiad.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion unigol cleifion a gofynion hygyrchedd eu hystyried a, lle y bo'n bosibl, y caiff addasiadau rhesymol eu rhoi ar waith. Dylai hyn gynnwys: • Gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y canllaw i gleifion i hysbysu'r cleifion o'r gofynion mynediad gan gynnwys y tu mewn i'r clinig.	Rheoliad 15(1a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Bydd y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu hygyrchedd y clinig. Nid oes unrhyw opsiynau hygyrchedd ychwanegol ar gael yn y clinig. Mae grisiau i'r adeilad ac allan ohono, mae lôn mynediad hefyd. Fodd bynnag mae grisiau yn arwain at yr ystafell glinig. Cyfrifoldeb y rheolwr ydyw i geisio sicrhau y sonnir am yr hygyrchedd pan drefnir apwyntiadau, am na ellir defnyddio'r peiriant IPL yn unrhyw fan arall.		Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig greu gweithdrefn gwyno ar wahân i fod	Rheoliad 24 o Reoliadau Gofal	Bydd y canllaw i gleientiaid yn eu cyfeirio at hygyrchedd		Wedi'i gwblhau

ar gael i'r cleifion yn yr ystafell drin. Dylai gynnwys manylion llawn am y broses gyfan.	lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	canllaw gweithdrefn gwyno llawn sydd ar gael yn y clinig. Bydd gweithdrefn gwyno newydd ac ar wahân yn cael ei hysgrifennu, ei hargraffu a bydd yn cael ei chadw ar gael yn y clinig i gleientiaid. Bydd y weithdrefn gwyno sy'n bodoli eisoes yn cael ei diweddarau â mwy o fanylder, bydd yn cael ei hargraffu a'i chadw yn yr ystafell glinig a'i chrybwyll yn y canllaw i gleientiaid adeg yr ymgynghoriad cychwynnol.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig chwilio, cofnodi ac adolygu adborth gan gwsmeriaid gan ddarparu ffurflenni dienw yn y clinig.	Rheoliad 19 (e) o Reoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Bydd y ffurflenni yn cael eu creu a'u cadw yn y dderbynfa i bawb eu defnyddio. Mae adolygiadau google hefyd ar gael i'w gweld unrhyw adeg gan AGIC a'r clinig, caiff y rhain eu hadolygu ar unwaith, cânt eu cofnodi gan fod hysbysiadau o adolygiad yn cael ei ysgrifennu yn cael ei anfon i'r clinig ar unwaith. Nid chafwyd unrhyw adborth negyddol hyd yma na meysydd lle dylid		Bydd ffurflen yn cael ei chreu i nodi pan fydd adolygiadau wedi cael eu cwblhau, ac mae ar waith eisoes.

		ystyried newid gweithdrefnau cyfredol yn y clinig. Bydd proses yn cael ei hysgrifennu'n glir yn dangos y broses o adolygu adborth a rheoleidd-dra a'r camau nesaf sy'n seiliedig ar yr adborth hwnnw.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddodi unrhyw ddeunyddiau yn y pecyn cymorth cyntaf y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn eu lle a rhoi system ar waith i sicrhau bod y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys popeth o fewn eu dyddiad defnyddio bob amser.	Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, Safon 22 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981	Mae pecyn cymorth cyntaf newydd sbon wedi cael ei brynu ac mae yn y clinig.		Wedi'i gwblhau
Y rheolwr cofrestredig i ystyried cwblhau cwrs hyfforddiant cymorth	Y Safonau Gofynnol	Mae unigolyn arall yn y Clinig sydd wedi cwblhau hyfforddiant		11/08/23

cyntaf cyfredol (hyfforddiant gloywi)	Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, Safon 22 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981	cymorth cyntaf ac felly wrth i'r rheolwr cofrestredig edrych fewn i wneud trefniadau i fynychu cwrs rhyw bryd yn y dyfodol, bydd yn ymdrechu i gynnal triniaethau pan mae'r unigolyn hwnnw ar y safle.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr yn cofnodi pob tro y darperir triniaethau IPL: Argymhellir i'r gofrestr fod yn benodol i'r ddyfais yn hytrach na chael ei gwahanu i ffeiliau unigol y cleifion.	Rheoliad 45 (2) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae hwn wedi cael ei gadw ar daenlen ers 29/06/23 a chaiff ei ddiweddarau'n wythnosol o leiaf.		Eisoes ar waith
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi rheoli haint er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau:	Rheoliad 9 (1)(n) o Reoliadau Gofal Iechyd	Mae hwn yn berthnasol i un ystafell lle roedd y ddyfais IPL yn cael ei defnyddio. Caiff yr arwyneb ei lanhau ar ôl pob ymweliad cleient. Mae hyn yn		11/08/23

Argymhellir iddo gynnwys mwy o fanylder gan gynnwys hylendid dwylo, trefniadau glanhau, amllder, sut a gyda beth, wedi'i gofnodi gydag amserlenni yn cael eu cadw ac ati.	Annibynnol (Cymru) 2011	cynnwys sychu pob arwyneb a darnau'r peiriant â weips Clinell. Yn ogystal, caiff yr ystafell ei glanhau'n drwyadl i gynnwys y llawr yn wythnosol, neu'n fwy aml os bydd angen. Bydd amserlen yn cael ei dogfennu â manylion llawn am ardaloedd ac eitemau sydd wedi cael eu glanhau a chaiff ei diwedddaru a'i chwblhau bob dydd gwaith.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y cedwir amserlenni glanhau gan fanylu ar eitemau, ardaloedd ac amllder a'u llofnodi fel cadarnhad	Rheoliad 15 (8) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Gweler yr uchod		11/08/23
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau proses werthuso a gwella parhaus pan fo angen	Rheoliad 19 (1) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Bydd proses yn cael ei hysgrifennu yn manylu ar y gwaith o adolygu ffurflenni adborth dienw, y nodiadau a gaiff eu hysgrifennu ar y cardiau cofnodi ym mhob ymweliad ac adolygiadau google i ddiwedddaru a gwella unrhyw faes o brofiad y cleientiaid os oes angen, a		11/08/23

		chwynion. Gellir anfon hwn i AGIC yn flynyddol		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod storfa'r cofnodion dan glo, ac i'r allweddi gael eu tynnu oddi yno pan nad oes goruchwyliaeth staff yno.	Rheoliad 23 (2) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus		Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ganddi bolisi ar waith i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg i'r cleifion.	Rheoliad 9(1) (g) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r Clinig yn ystyried os oes diffyg dealltwriaeth o unrhyw iaith yna mae'n risg i gynnal unrhyw driniaethau. Fodd bynnag, bydd y rheolwr cofrestredig yn diweddarau'r polisi i adlewyrchu hyn.		11/08/23
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystysgrif cofrestru AGIC ac amserlenni cysylltiedig wedi'u hatodi mewn man amlwg.	Rheoliad 28, Deddf Safonau Gofal 2000	Bydd hwn yn cael ei gwblhau		11/08/23

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Kim Macey

Teitl swydd: Rheolwr

Dyddiad: 09/08/2023